**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd**
**Dydd Mawrth 10 Hydref 2017**
**Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead, Bae Caerdydd, CF10 4PZ**
**Cofnodion**

**Yn bresennol**

Mark Isherwood AC
Mike Hedges AC
Simon Thomas AC
Carole Morgan-Jones, NEA Cymru
Susan Glover, NEA Cymru
Laura Nell, Ofgem
Lia Murphy, Ofgem
Ella Maxwell, Ofgem
Michael Anderson, SSE
Sue Purnell, SSE
Andrew Regan, Cyngor ar Bopeth Cymru
Phil Dawson, E.ON
Andy Davis, Speakeasy
Alison Cawley, Melin Homes
Caroline Summers, Melin Homes
Rhian Cook, Melin Homes
Daniel St John, Nyth
Nigel Winnan, Wales & West Utilities
Amanda Biss, Egnida Limited
Sean Davey, Egnida Limited
Simon Lannon, Ysgol Bensaernïaeth Cymru
Dorine Pannarale, Cymdeithas y Landlordiaid Preswyl
Jack Sellers, Swyddfa David Melding AC
Bethan Proctor, Swyddfa Jenny Rathbone AC
Peter Wong, Swyddfa Jenny Rathbone AC
Jessica Heyden, Swyddfa Jenny Rathbone AC
Michael Freeman, Riverside Advice
Jack Stacey, Swyddfa Huw Irranca-Davies AC
Carlos Ruiz, Cyngor Caerdydd
Kate O'Sullivan, Cardiff University

**Ymddiheuriadau**
Neil Hamilton AC
Neil McEvoy AC
Mick Antoniw AC
Gareth Bennett AC
Dawn Bowden AC

Jayne Bryant AC
Angela Burns AC
Paul Davies AC
Dafydd Elis-Thomas AC
Rebecca Evans AC
Russell George AC
Nathan Gill AC
Lesley Griffiths AC
Siân Gwenllian AC
Jane Hutt AC
Nick Ramsay AC
David Rowlands AC
Kirsty Williams AC
Leanne Wood AC
Shea Buckland-Jones, Y Sefydliad Materion Cymreig
Nick Speed, Nwy Prydain

**1. Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Croesawodd Mark Isherwood y gwesteion i gyfarfod cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni. Lansiwyd y Grŵp Trawsbleidiol newydd mewn derbyniad i Aelodau'r Cynulliad ym mis Mehefin eleni a'r Aelodau Cynulliad sydd wedi cytuno i fod yn aelodau o'r Grŵp Trawsbleidiol newydd, gan gynnwys Mark, yw Vikki Howells AC, Llafur; Mike Hedges AC, Llafur; a Simon Thomas AC, Plaid Cymru.

Derbyniwyd ymddiheuriadau (gweler uchod).

Dywedodd Mark wrth y rhanddeiliaid ei bod yn ofynnol i'r Grŵp, yn unol â'r rheolau ar gyfer Grŵp Trawsbleidiol, gynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i ddechrau ac ethol cadeirydd ac ysgrifennydd yn swyddogol. Dywedodd Mark iddo gael pleser o gadeirio'r Grŵp Trawsbleidiol blaenorol ar Dlodi Tanwydd ac y byddai'n fodlon cadeirio'r Grŵp newydd pe byddai'r aelodau'n cytuno.

**2. Ethol Cadeirydd ac Ysgrifennydd**

Enwebodd Carole Morgan-Jones Mark Isherwood AC i gadeirio'r Grŵp Trawsbleidiol. Eiliwyd hyn gan Andy Regan ac fe'i cymeradwywyd gan yr aelodau. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau. Dywedodd Mark ei bod yn fraint ganddo fod yn gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol.

NEA Cymru oedd yn darparu'r cymorth ysgrifenyddol ar gyfer y Grŵp blaenorol, a dywedodd ei fod yn fodlon parhau i wneud hynny. Cynigiodd Mark Carole Morgan-Jones o NEA Cymru yn ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol. Eiliwyd hyn gan Andy Regan ac fe'i cymeradwywyd gan yr aelodau. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill na gwrthwynebiadau.

**3. Diogelu defnyddwyr agored i niwed: Trosolwg o'r polisïau newydd gan gynnwys y cap ar brisiau'r mesurydd rhagdalu (PPM) a chynlluniau ar gyfer tariff diogelu**

Amlinellodd Laura Nell, Pennaeth Diwygio Llywodraethu Cod, Cwsmeriaid a Chystadleuaeth, Ofgem, rôl Ofgem o ran diogelu pob defnyddiwr ynni, a bod Ofgem yn rhoi sylw penodol i fregusrwydd ariannol. Cyn bo hir, bydd Ofgem yn cyhoeddi dogfen ar ddefnyddwyr sy'n agored i niwed.

Amlinellodd Laura gefndir y cap ar brisiau PPM neu'r Tariff Diogelu PPM. Ei ddiben oedd rhoi bargen well i gwsmeriaid PPM nad ydynt wedi gallu manteisio ar brisiau cystadleuol yn yr un ffordd â chwsmeriaid eraill. Fe'i cyflwynwyd o ganlyniad i bryderon am farchnad dwy haen.

Ym mis Mehefin 2016, argymhellodd a phennodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd fethodoleg ar gyfer cap ar y swm y caiff cyflenwyr ei godi ar gwsmeriaid PPM. Mae'r cap yn un dros dro, rhwng mis Ebrill 2017 a mis Rhagfyr 2020, pan ddisgwylir y bydd y gwaith o gyflwyno mesuryddion clyfar wedi'i gwblhau. Ofgem sy'n gweinyddu'r tariff diogelu ac mae'n diweddaru'r lefelau ym mis Ebrill a mis Hydref. I ddechrau, bydd y tariff diogelu yn gymwys i tua 4 miliwn o aelwydydd, a thua 250,000 o aelwydydd yng Nghymru. Nodwyd bod gan Gymru gyfran uwch o gwsmeriaid PPM na Lloegr, gyda'r cyfartaledd cenedlaethol tua 15 y cant, ond yng Nghymru roedd yn 19 y cant.

Esboniodd Laura pam fod angen tariff diogelu ar gyfer cwsmeriaid PPM. Yn gyffredinol, mae cwsmeriaid PPM yn talu mwy, a hyd yn oed y rhai sy'n newid yn arbed llawer llai. Hefyd, ni allant gael y bargeinion gorau yn y farchnad ac maent yn wynebu lefelau uchel o niwed. Maent hefyd yn fwy tebygol o fod yn agored i niwed ac mewn dyled, a dioddef tlodi tanwydd.

Mae ymchwil gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn dangos bod defnyddwyr sydd mewn amgylchiadau neu sydd â nodweddion sy'n awgrymu eu bod mewn mwy o berygl o fod yn agored i niwed yn aml yn fwy tebygol o ymddieithrio a bod ar dariff amrywiadwy safonol (SVT) drutach.
Mae ymchwil Ofgem hefyd yn dangos bod defnyddwyr ar incwm isel (islaw £18,000), heb gymwysterau, neu ag anabledd, yn fwy tebygol o fod â diffyg hyder wrth ymgysylltu â'r farchnad, a gelwir y rhain yn "Osgowyr Gofidus" (Anxious Avoiders”). Mae'r rheini sydd dros 65 oed neu sydd ag anabledd hefyd yn fwy tebygol o gael eu digalonni gan y peryglon canfyddedig o ymgysylltu, a elwir yn "Cydymffurfwyr Cyfforddus". (“Contented Conformers”).

Disgwylir y bydd mesuryddion clyfar yn gostwng costau cyflenwyr i ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid PPM a dylai hynny arwain at fargeinion mwy cystadleuol i'r cwsmeriaid hyn a dewis ehangach o dariffau rhagdalu. Bydd mesuryddion clyfar hefyd yn galluogi defnyddwyr i newid yn rhwyddach rhwng credyd a PPM ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd, ee 'top-up' ar-lein a gwell credyd argyfwng ar-lein, a'i gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr fonitro ac ychwanegu, gan ganiatáu mwy o ddefnydd hyblyg o ynni.

Gosodir y tariff gyda meincnod cychwynnol, wedi'i gyfrifo gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Yna caiff hyn ei ddiweddaru gan ddefnyddio tri mynegai i adlewyrchu newid. Bydd lefelau'r cap yn amrywio yn seiliedig ar y costau gwahanol o gyflenwi trydan a nwy trwy bibellau a gwifrau o gwmpas y wlad. Mae cwsmer PPM sydd ar dariff dau danwydd yn talu tua £1048 y flwyddyn am nwy a thrydan.

Mae Ofgem wedi ymrwymo i leihau effaith y farchnad ddwy haen bresennol ar ddefnyddwyr sy'n agored i niwed ac mae'r farchnad dwy haen yn effeithio'n bennaf ar gwsmeriaid PPM. Mae diwygiadau eraill i geisio cynyddu'r lefelau ymgysylltu yn achos pob cwsmer yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, bydd y rhain yn cymryd amser i gael effaith, ac efallai na fyddant yn effeithiol yn achos pob math o ddefnyddwyr sy'n agored i niwed. Dyna pam mae Ofgem yn bwriadu cymryd camau ychwanegol i ddiogelu defnyddwyr agored i niwed. Yn benodol, maent wedi bod yn archwilio sut y gallent ymestyn y tariff diogelu sydd eisoes ar gael i gwsmeriaid tariff PPM i ddefnyddwyr agored i niwed heb PPM. Ar hyn o bryd mae Ofgem yn ystyried cynigion yng ngoleuni cyhoeddiadau diweddar y llywodraeth.

**4. Safbwynt y cwmnïau ynni**

Dywedodd Michael Anderson, Rheolwr Cysylltiadau Cwsmer yn SSE, mai SSE oedd yr ail gwmni ynni mwyaf yn y DU gyda thua miliwn o gwsmeriaid yng Nghymru. Mae'r cwmni'n cyflogi rhwng 1500 a 1700 o staff yn eu safle ym Mhorth Caerdydd sy'n arbenigo mewn cwsmeriaid PPM. Estynnwyd cyfle i aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol ymweld â'r safle.

Barn SSE ar gapio prisiau ar filiau ynni yw bod cystadleuaeth yn gweithio, ac nad oes angen capio prisiau. Fodd bynnag, os oes ymyrraeth yn y farchnad, byddant yn ymgysylltu'n adeiladol â'r Llywodraeth ac Ofgem ar hyn i osgoi unrhyw effeithiau negyddol ar gwsmeriaid. Mae tystiolaeth bresennol bod cwsmeriaid PPM yn newid cyflenwyr yn llai aml ers y cap. Mae biliau rhai cwsmeriaid wedi gostwng ond mae eraill wedi cynyddu.

*Croesawodd Mark Isherwood Simon Thomas AC a Mike Hedges AC i'r cyfarfod.*

5. **Ymateb i'r polisïau newydd gan Gynghrair Tlodi Tanwydd Cymru.**

Dywedodd Andrew Regan, Swyddog Polisi Ynni Cymru, Cyngor ar Bopeth (CAB) Cymru, fod **dadansoddiad** CAB wedi canfod bod y biliau tanwydd deuol ar gyfer pobl ar y tariff amrywiadwy safonol wedi codi £89, sef teirgwaith y gyfradd chwyddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Eglurodd fod yna broblemau o hyd o ran tariffau amrywiadwy safonol gyda dros 200,000 o bobl yn ymweld â chanolfannau CAB yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Pwysleisiodd ei bod yn bwysig cael marchnad ynni sy'n gweithio'n well i bob defnyddiwr a bod angen monitro'r cap ar y PPM yn ofalus a'i adolygu yn 2020 i weld a oedd wedi gweithio.

Croesawodd Carole Morgan-Jones, Cyfarwyddwr National Energy Action (NEA) Cymru, ffocws y Llywodraeth ar ynni fforddiadwy. Dywedodd mai aelwydydd incwm isel sydd mewn tlodi tanwydd sy'n dioddef fwyaf gan brisiau ynni uchel, a bod 1 o bob 4 cartref yng Nghymru ar hyn o bryd mewn tlodi tanwydd. Mae biliau ynni fforddiadwy yn broblem arbennig i'r bobl hynny y mae'r oerfel yn effeithio'n sylweddol arnynt. Roedd pryderon hefyd ynglŷn â'r nifer gynyddol o aelwydydd yng Nghymru ar PPM. Mae'r NEA yn argymell cap sydd â mwy o ffocws yn hytrach nag un cyffredinol er mwyn ei dargedu i'r rhai sydd fwyaf ei angen. Byddai angen deddfwriaeth ar gap mwy cyffredinol ac roedd NEA eisiau sicrhau bod y rhai mwyaf agored i niwed yn cael cymorth ar gyfer y gaeaf sy'n dod.

**6. Cwestiynau**

Gofynnodd Simon Thomas AC gwestiwn am amserlen y mesuryddion clyfar, sef 2020, a pha mor realistig oedd hyn. Dywedodd Michael Anderson fod sialensau logistaidd gyda'r broses gyflwyno a'u bod yn gwneud pob ymdrech resymol i ymgysylltu a chyfathrebu â chwsmeriaid i oresgyn y rhain. Gall materion technegol godi hefyd pan fydd y cwmnïau yn cyrraedd eiddo i osod yr offer.

Holodd Mike Hedges AC beth oedd yn digwydd i'r mesurydd clyfar wrth newid cyflenwr ac a fyddai'n gweithio ar ôl newid cyflenwr, gan ei fod wedi cael profiad personol o'r problemau. Bu peth sylwadau negyddol hefyd yn y wasg am yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r mesuryddion clyfar, a darlledwyd rhaglen Watchdog ar fesuryddion clyfar yn mynd ar dân. Soniwyd hefyd am y posibilrwydd y gallai pobl alw'n ddiwahoddiad ynghylch mesuryddion clyfar. Dywedodd Carole fod NEA yn gweithio mewn partneriaeth â Smart Energy GB i gefnogi mudiadau sy'n gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed i gyflwyno manteision y mesuryddion clyfar. Roedd consensws cyffredinol y byddai mesuryddion clyfar yn bwnc i'w drafod mewn cyfarfod o'r Grŵp Trawsbleidiol yn y dyfodol.

**7. Cloi'r cyfarfod**

Diolchodd Mark Isherwood i'r aelodau am fod yn bresennol a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at weld pawb yn y cyfarfod nesaf.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni ar 12 Rhagfyr 2017, Ystafell A, Llawr Gwaelod, Bloc B, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd, 12.15pm i 1.15pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.25pm